# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT

**DYDD LLUN, 23AIN TACHWEDD, 2020**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D. Price [Cadeirydd]

**Y Cynghorwyr:**
L.R. Bowen, K.V. Broom, D.M. Cundy (yn lle B. Thomas), T.A.J. Davies, J.P. Jenkins, B.W. Jones, D. Jones, G.R. Jones, M.J.A. Lewis, E.M.J.G. Schiavone, E.G. Thomas a D.T. Williams

**Aelodau Cyfetholedig:**
A. Enoch - Rhiant-lywodraethwr
V. Kenny - Cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig Rufeinig

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd G. Davies - Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg & Phlant

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
G. Morgans - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
S. Davies - Pennaeth Mynediad i Addysg
A. Rees - Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant
S. Smith - Pennaeth Gwasanaethau Plant
A. Thomas - Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiad
S. Griffiths - Rheolwr Rhaglen Moderneiddio Addysg
N. Thomas - Rheolwr Gwasanaethau
M. Evans Thomas - Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Bryer - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
R. Lloyd - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees - Cyfieithydd Ar Y Pryd
J. Corner - Swyddog Technegol

**Cyfarfod Rhithiol: 10.00 yb - 12.55 yp a 2.00 yp - 3.00 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod(ion) | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| M.J.A. Lewis | 5 – Strategaeth Addysg a Gwasanaethau Plant | Llywydd Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin |

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 4. EFFAITH COVID-19 AR BLANT A PHOBL IFANC SIR GAERFYRDDIN

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad yn manylu ar Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn sgil y pandemig Covid-10, yr effaith ar ein plant a'n pobl ifanc ac ymateb yr Adran/Cyngor i'r heriau a wynebwyd dros y chwe mis diwethaf.

Er nad oedd yr adroddiad yn cwmpasu'r holl agweddau ar waith yr Adran ers mis Mawrth, roedd yn rhoi cipolwg ar rai o'r heriau a'r atebion a ddatblygwyd i fynd i'r afael â'r heriau hynny.

Nododd y Pwyllgor fod gwasanaethau ac ysgolion yr adran yn parhau i fod o dan bwysau o ganlyniad i Covid-19.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Mae llawer o sôn am Covid hir a gofynnwyd i swyddogion faint o ystyriaeth a roddir i hyn mewn perthynas â dyfodol y plant sydd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ar hyn o bryd ac effaith y pandemig ar lythrennedd a rhifedd. Dywedodd y Cyfarwyddwr wrth y Pwyllgor fod y mater hwn wedi'i ystyried ers dechrau mis Medi. Mae swyddogion yn gweithio'n galed gyda phenaethiaid i gadw ysgolion ar agor, ond mae llesiant plant yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Cafwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi arwain at cyflogi 28 o athrawon a 49 o gynorthwywyr addysgu ychwanegol ar draws ein hysgolion. Cynhelir cyfarfodydd yn wythnosol â phenaethiaid i edrych ar y mater hwn ac i baratoi strategaethau. Bydd cymorth ar gael am gryn amser i gynorthwyo ysgolion a'u cefnogi drwy'r cyfnod heriol hwn. Dywedodd y Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant fod yr adran wedi cyhoeddi Strategaeth Llesiant yn ddiweddar a oedd yn manylu ar y mesurau amrywiol sydd ar gael i gefnogi plant a staff. O ran llythrennedd a rhifedd, mae'r rhain yn rhan o'r cynlluniau addysgu. Ychwanegodd fod swyddogion yn edrych yn ofalus ar hyn a'u bod yn trafod dulliau amrywiol a allai helpu, er enghraifft dysgu carlam;
- Mynegwyd pryder ynghylch y ffaith bod llawer o feithrinfeydd yn mynd drwy gyfnod anodd iawn ar hyn o bryd ac efallai y bydd rhai yn cael eu gorfodi i gau, a'r effaith y bydd hynny'n ei chael ar bobl sy'n dychwelyd i'r gwaith. Dywedodd y Cyfarwyddwr wrth y Pwyllgor fod swyddogion wedi bod yn cefnogi darparwyr cyn-ysgol ers dechrau'r pandemig fel bod gweithwyr allweddol yn gallu mynd i'r gwaith. Rhoddwyd grantiau i rai ohonynt i sicrhau eu bod yn parhau i oroesi. Yn anffodus, dim ond canran fach o fusnesau a lwyddodd i gael y Grant Darparwyr Gofal Plant a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru oherwydd ei bod yn anodd bodloni'r meini prawf. Felly mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu edrych ar hynny. Mae grantiau hefyd ar gael gan y Cyngor Sir ac mae 88 o grantiau wedi cael eu rhoi i fusnesau hyd yma;
- O ran y fenter lle darperir offer cyfrifiadurol i blant ysgol yn ystod y cyfyngiadau symud, gofynnwyd i swyddogion sut y gweithredir y cynllun hwn. Eglurodd yr Aelod Gweithredol o'r Bwrdd ei bod wedi dod i'r yn amlwg

fod llawer o ddisgyblion o dan anfantais oherwydd nad oedd ganddynt fynediad at offer TG yn y cartref ac felly dechreuodd y fenter. Casglwyd pecyn TG o'r ysgolion amrywiol a'i ddarparu i blant oedd ei angen. Esboniodd y Cyfarwyddwr ei bod yn dasg enfawr gan fod yr amcangyfrif o ran yr angen wedi bod yn rhy isel. Ychwanegodd y Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant fod pecyn TG wedi'i gyflwyno mewn tair cyfran, dwy yn ystod tymor yr haf a chan fod y galw'n uwch na'r disgwyl, ychwanegwyd trydedd gyfran ar ddechrau tymor yr hydref. Mae rhai ceisiadau'n dal i ddod i law ac mae'r system o ddarparu pecynnau TG wedi symud o fan canolog i system leol;

- O ran canlyniadau'r arolwg i rieni, mynegwyd pryder mai dim ond 6% a nododd mai effaith fwyaf Covid oedd meddwl am y brifysgol neu'r coleg, a mynegwyd pryder ei bod yn amlwg na dderbyniwyd digon o ymatebion gan rieni disgyblion mewn ysgolion uwchradd a gofynnwyd i swyddogion a ellid rhoi pwyslais ar yr ymatebwyr hyn y tro nesaf y bydd arolwg yn cael ei gynnal. Dywedodd y Cyfarwyddwr wrth y Pwyllgor y gofynnwyd i ymatebwyr a fyddent yn fodlon cyfrannu eto a dywedodd y rhan fwyaf y byddent yn fodlon gwneud hynny. Yn ogystal, mae rhai ysgolion yn cynnal eu harolygon eu hunain ac yn casglu'r wybodaeth yn lleol. Os bydd arolwg arall yn cael ei gynnal yna gallai swyddogion ddarparu'n benodol ar gyfer ysgolion uwchradd. Croesawodd y Cyfarwyddwr y penderfyniad a wnaed i beidio â chynnal arholiadau eleni, o gofio effaith y misoedd diwethaf. Yr her bellach fydd sicrhau bod tystiolaeth gadarn mewn perthynas â'r graddau a roddir;
- Cyfeiriwyd at y cynnydd o 19.2% yn nifer y cysylltiadau gofal cymdeithasol newydd a'r cynnydd o 26.6% o ran diogelu o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Dywedodd y Cyfarwyddwr wrth y Pwyllgor mai'r Gwasanaethau Plant oedd un o'r unig adrannau nad oedd wedi cau dros y misoedd diwethaf. Bu gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau ledled Cymru ond ni welwyd y gostyngiad hwnnw yn Sir Gaerfyrddin;
- Nodwyd bod yr achosion mwyaf pryderus yn parhau i gael cymorth drwy gydol y cyfyngiadau symud a gofynnwyd i swyddogion a wnaed unrhyw gyswllt â'r teuluoedd eraill naill ai dros y ffôn neu drwy gyfarfod o bell. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant, o ystyried yr effaith anochel ar wasanaethau, fod teuluoedd yn cael eu graddio yn ôl y lliwiau coch, oren neu wyrdd, ac er gwaethaf y cyfyngiadau symud, roedd ymweliadau'n parhau i ddigwydd gyda'r teuluoedd hynny yn y categori uchaf. Roedd asesiadau risg yn cael eu cynnal a dilynwyd y rheolau cadw pellter cymdeithasol. I'r teuluoedd hynny yn y categorïau is, defnyddiwyd galwadau fideo a galwadau ffôn i gadw mewn cysylltiad a darparu'r cymorth angenrheidiol. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod dysgwyr agored i niwed hefyd yn cael eu graddio yn ôl y lliwiau coch, oren neu wyrdd er mwyn sicrhau bod cymorth ar gael iddynt, megis gofal plant a phrydau ysgol am ddim;
- Cyfeiriwyd at lesiant plant a'r ffaith bod mwy o bwysau ar rai plant oherwydd bod ganddynt broblemau gartref a gofynnwyd i swyddogion a yw'r gwasanaeth cwnsela'n cael ei ddarparu oherwydd bod yr ysgolion wedi'u cau. Esboniodd y Cyfarwyddwr fod cwnsela wedi bod ar gael bron drwy gydol y cyfnod a chafwyd cyllid i ehangu'r gwasanaeth cwnsela. Mae'r sefyllfa'n cael ei monitro'n ofalus gan seicolegwyr addysg. Mae llesiant yn uchel ar restr blaenoriaethau'r adran, nid yn unig ar gyfer y staff ond hefyd ar gyfer y dysgwyr;

- Mynegwyd pryder ei bod yn ymddangos bod anghysondeb ledled y sir o ran dysgu o bell a gofynnwyd i swyddogion a oedd arferion gorau'n cael eu rhannu fel bod pob ysgol yn ymwybodol o'r disgwyliadau. Pwysleisiodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol mai mater i benaethiaid unigol yw edrych ar hyn, a disgwylir i hyn ddigwydd. Mae'n rhaid i arweinwyr ysgolion roi cyfarwyddiadau clir a chadarn i'w staff ynghylch yr hyn a ddisgwylir. Esboniodd y Cyfarwyddwr fod enghreifftiau o arferion gorau a ddangoswyd yn ystod y cyfnod atal diweddaraf wedi'u casglu a'u rhannu â phob ysgol. Ychwanegodd nad yw rhai plant, yn anffodus, wedi cymryd rhan mewn dysgu o bell ac mae hynny'n her. Mae ERW hefyd wedi creu cronfa o adnoddau i gefnogi dysgu o bell;
- O ran dysgu o bell, pwysleisiwyd ei bod yn bwysig bod athrawon yn mewngofnodi i unrhyw fodiwlau y maent wedi'u paratoi er mwyn eu gweld o safbwynt y disgyblion a gweld sut olwg sydd arno, oherwydd yn aml iawn nid oes modd cyrchu'r modiwlau. Gofynnwyd i swyddogion sut y bydd dysgu o bell yn cael ei fonitro. Esboniodd y Cyfarwyddwr fod Penaethiaid wedi cael gwybod mai un o'u prif heriau yw bod angen iddynt fonitro dysgu o bell yn rheolaidd. Mewn rhai ysgolion darperir adroddiadau wythnosol yn amlinellu pa ddysgu sydd wedi digwydd yr wythnos honno. Mae'r adran hefyd wedi cynghori llywodraethwyr y dylent fod yn gwirio'r hyn sy'n digwydd yn eu hysgol o ran dysgu o bell/dysgu cyfunol. Ychwanegodd y byddai angen monitro hyn yn barhaus er mwyn sicrhau cysondeb;
- Mynegwyd pryder bod rhai plant yn dychwelyd i'r ysgol yn dilyn cyfnod yn hunanynysu a osodwyd gan yr ysgol ac yna'n cael gwybod na ddylent fod wedi dychwelyd ond nad oedd y broses Profi, Olrhain a Dysgu wedi cysylltu â'r teulu. Eglurodd y Cyfarwyddwr fod pethau'n anodd iawn oherwydd bod y feirws yn ymosod heb rybudd. Ein blaenoriaeth yw cadw disgyblion a staff yn ddiogel ac mae'n rhaid inni ymateb ar unwaith. Cytunodd y dylid cyfathrebu mewn achosion o'r fath ar nifer o lwyfannau a dylai ysgolion fod yn ymwybodol os oes gan ddisgybl broblemau o ran derbyn gohebiaeth, megis dim Wi-Fi neu signal ffôn symudol gwael;
- Pan ofynnwyd iddo am y sefyllfa bresennol o ran absenoldeb, dywedodd y Cyfarwyddwr wrth y Pwyllgor ei fod yn destun pryder ym mis Medi/dechrau mis Hydref, ond bod presenoldeb wedi gwella ers hynny a'i fod dros 90% ar hyn o bryd. Roedd swyddogion hefyd yn ymgymryd â phroses o ailgysylltu â theuluoedd sy'n dal i fod ychydig yn bryderus ynghylch anfon eu plant yn ôl i'r ysgol. Mae rhai rhieni wedi penderfynu peidio ag anfon eu plant yn ôl i'r ysgol ac er nad yw'r Awdurdod yn defnyddio ei bwerau statudol mewn achosion o'r fath, roedd ysgolion a swyddogion yr awdurdod lleol wrthi'n ymdrechu i ailgysylltu â'r teuluoedd hyn a gweithio gyda nhw;
- Mynegwyd pryder ynghylch y 563 o deuluoedd sydd yn gallu hawlio prydau ysgol am ddim ond nad ydynt wedi gwneud hynny. Dywedodd y Cyfarwyddwr wrth y Pwyllgor fod ysgolion yn gweithio gyda swyddogion er mwyn cynorthwyo'r teuluoedd hyn i gael mynediad at yr hyn y mae ganddynt hawl ei gael.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle, ar ran y Pwyllgor, i ddiolch i'r holl benaethiaid, yr athrawon a'r staff mewn ysgolion ledled y sir, am bopeth y maent wedi'i wneud dros y misoedd diwethaf yn yr ymdrech i gadw ein hysgolion ar agor a'n plant yn ddiogel yn y frwydr yn erbyn y pandemig.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 5. STRATEGAETH ADDYSG A GWASANAETHAU PLANT 2020-2025

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Strategaeth Gwasanaethau Addysg. Mae gan Awdurdodau Lleol gyfrifoldebau diffiniedig i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i ddiwallu anghenion pob plentyn a pherson ifanc. Mae'r strategaeth hon yn nodi gweledigaeth glir ar y cyd ar gyfer y rôl y mae Gwasanaethau Addysg yn ei chwarae o ran datblygu cymunedau bywiog ac economi lewyrchus yn Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y strategaeth, yn dilyn adborth gan y Bwrdd Gweithredol, bellach yn cwmpasu cyfnod o 10 mlynedd rhwng 2020 a 2030.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at y datganiad yn y strategaeth na fyddai mwy na dau grŵp blwyddyn ym mhob dosbarth addysgu a mynegwyd pryder ynghylch goblygiadau hynny ar gyfer ysgolion gwledig bach. Eglurodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol mai'r strategaeth yw gweledigaeth yr adran ar gyfer y deng mlynedd nesaf, ac un o'r elfennau ynddi fyddai peidio â chael grwpiau cymysg ac mai llesiant y plentyn oedd y sylfaen ar gyfer hyn. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod nifer o heriau'n wynebu ysgolion llai y gellir eu goresgyn drwy ffedereiddio a rhannu adnoddau.  Mae 95 o ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin, sef y nifer uchaf mewn unrhyw sir yng Nghymru;
- Er y cytunir yn llwyr â'r datganiad yn yr adroddiad fod gan Sir Gaerfyrddin lawer o arweinwyr addysg ysbrydoledig, gofynnwyd i swyddogion beth sy'n digwydd i'r arweinwyr talentog hynny pan na allant wneud y gwaith mwyach am nad ydynt yn gallu ymdopi â'r straen.  Cytunodd yr Aelod Gweithredol o'r Bwrdd fod y sefyllfa'n un heriol ac efallai mai dyma pam ei bod mor anodd penodi penaethiaid ar gyfer ysgolion bach. Mae'r adran yn cadw mewn cysylltiad â phob pennaeth ac yn cynnig cymorth lle bo angen. Tynnodd sylw at y ffaith bod Covid, yn anffodus, wedi ychwanegu at y straen.  Cytunodd y Cyfarwyddwr fod y sefyllfa'n un heriol, ond bod penaethiaid mewn cyfnod pontio. Er nad oedd ateb hawdd, cynigiodd yr adran gymaint o gymorth a phosibl, a phan fo ysgol yn tanberfformio oherwydd bod y pennaeth o bosibl yn ei chael hi'n anodd, cynigir cymorth ychwanegol i sicrhau nad yw hyn yn cael unrhyw effaith ar y disgyblion;
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd cydnabod y pwysau sydd ar dimau uwch-arweinwyr mewn ysgolion o ran Covid a'r cwricwlwm newydd, sy'n heriol iawn. Esboniodd y Cyfarwyddwr fod mesurau'n cael eu rhoi ar waith i leihau'r llwyth gwaith. Ychwanegodd na fydd Estyn yn arolygu ysgolion am beth amser, a bydd hyn yn gwaredu rhywfaint o bwysau.  Ychwanegodd mai dim ond hyn a hyn y gall swyddogion ei wneud ac efallai fod angen i rywbeth yn yr ysgol newid;
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod pob ysgol mewn clystyrau a'u bod yn gweithio ar y cwricwlwm. Awgrymwyd, pan fydd clystyrau ysgolion uwchradd yn cyfarfod â'i gilydd, y dylent wahodd yr ysgolion cynradd sy'n eu bwydo i'w cynghori er mwyn sicrhau parhad dysgu ac osgoi gweld y safon a gyflawnir yn gostwng pan fydd disgyblion yn dechrau ym mlwyddyn 7. Cytunodd y Cyfarwyddwr fod llawer y gallai'r sector uwchradd ei ddysgu gan y sector

cynradd, er enghraifft dysgu thematig, a byddai'n sicrhau bod yr awgrym hwn yn cael ei gyflwyno i'r clystyrau;

- O ran gwella safonau, gofynnwyd i swyddogion sut y bydd yr Awdurdod yn asesu ac yn cyfleu gwelliannau i'r cyhoedd. Dywedodd y Cyfarwyddwr ei fod yn fater o sut y gall Estyn brofi pa welliannau sydd wedi'u gwneud. Roedd olrhain cynnydd a meincnodi yn elfennau allweddol i alluogi ysgolion i ddangos tystiolaeth o unrhyw gynnydd a wnaed. Byddai angen i'r ysgol rannu'r wybodaeth honno â'r cyhoedd drwy adroddiad blynyddol y llywodraethwyr;
- Cyfeiriwyd at recriwtio arweinwyr ysbrydoledig a gofynnwyd i swyddogion a oeddent yn hyderus y byddant dal yn gallu recriwtio arweinwyr o'r fath os na allant siarad Cymraeg. Esboniodd y Cyfarwyddwr fod yr Awdurdod yn cyflwyno proses lawer mwy cadarn o ran recriwtio. Bydd y dull a ddefnyddir gan y Ganolfan Asesu i benodi Penaethiaid Gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio i benodi penaethiaid oherwydd bod angen i unrhyw bennaeth fod yr un mor fedrus â Phennaeth Gwasanaeth. Ychwanegodd ei fod yn dymuno bod gan ymgeiswyr rywfaint o Gymraeg ond ei bod yn bwysicach eu bod yn gwerthfawrogi'r iaith a'u bod yn ymrwymo i ddysgu'r iaith;
- O ran y dibenion a nodir ar dudalen 70 teimlwyd y dylem fod yn cynnwys ein hanes, er mwyn bod yn gytbwys. Cytunodd y Cyfarwyddwr ei bod yn bwysig canolbwyntio ar yr hyn sydd ar garreg ein drws, hynny yw treftadaeth Cymru. Ychwanegodd y Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant fod y cwricwlwm lleol yn gyfle i ddatblygu rhaglen ddysgu a oedd yn berthnasol ac yn meithrin nid yn unig ddinasyddion Cymru ond hefyd ddinasyddion byd-eang.

**PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

## 6. RMA - CYNNIG I LEIHAU'R BROSES BENDERFYNU FEWNOL YNGHYLCH TREFNIADAETH YSGOLION

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod pob aelod o dîm y Rhaglen Moderneiddio Addysg (MEP), o ganlyniad i bandemig Covid-19, wedi'u hadleoli am gyfnod o tua 4 mis i weithio mewn meysydd hollbwysig eraill yn yr adran ac felly dim ond ychydig bach iawn o waith prosiect y gallent ei gwblhau. Cyn y pandemig, roedd y tîm wedi bwriadu cynnal nifer o ymgynghoriadau statudol (mewn perthynas ag ad-drefnu ysgolion neu faterion ffedereiddio) gan ddechrau ar unwaith, a bu'n rhaid gohirio pob un ohonynt, gyda dyddiadau newydd i'w cadarnhau. Nid oedd hyn yn cynnwys unrhyw waith ad-drefnu ysgolion statudol a fyddai wedi'u dwyn ymlaen o ganlyniad i gasgliad adolygiad y Rhaglen Moderneiddio Addysg.

Arweiniodd y gwaith o adleoli tîm y Rhaglen Moderneiddio Addysg at oedi o tua 6 mis o ran cynigion ad-drefnu ysgolion oherwydd yr angen i sefydlu amserlenni newydd ar gyfer pob cynnig a diweddaru'r holl ddogfennau gyda'r setiau data diweddaraf. O ran rhaglen fuddsoddi Cyngor Sir Caerfyrddin, caewyd pob prosiect gyda chontractwyr ar y safle ar adeg y cyfyngiadau symud cychwynnol, gyda dyddiadau ailgychwyn yn cael eu cymeradwyo'n barhaus i ganiatáu i waith barhau. O ganlyniad, rhagwelwyd y bydd y pandemig yn cael effaith sylweddol ar y Rhaglen Moderneiddio Addysg o ran cyllid ac amserlenni.

Roedd tîm y Rhaglen Moderneiddio Addysg bellach wrthi ar hyn o bryd yn ymgymryd â'r holl waith a gynlluniwyd cyn y pandemig ac roeddent yn gweithio ar

ddatblygu Adolygiad y Rhaglen Moderneiddio Addysg ac amserlenni newydd ar gyfer yr ymgynghoriadau statudol a ohiriwyd. Y gobaith oedd y gellid parhau i wneud yr holl faterion perthnasol oedd yn ymwneud â phrosiectau o fewn amserlen a oedd cyn agosed â phosibl at yr amserlen wreiddiol, ond disgwylid y byddai rhywfaint o oedi cyn y gellir penderfynu ynghylch hyn a gweithredu.

Er mwyn gallu symud ymlaen ag unrhyw gynigion ynghylch ad-drefnu ysgolion (y gellid eu cysylltu â phrosiectau buddsoddi), rhoddwyd ystyriaeth i fyrhau'r Broses Benderfynu Ynghylch Trefniadaeth Ysgolion Mewnol unwaith eto. Er y derbyniwyd na fydd byrhau'r broses yn lleihau'r oedi a gafwyd oherwydd y pandemig, bydd yn helpu tîm y Rhaglen Moderneiddio Addysg rhywfaint i ail-flaenoriaethu ymgynghoriadau gofynnol mewn ffordd effeithiol ac amserol.

Nodwyd bod angen ymgynghori ar hyn o bryd â'r Pwyllgor Craffu a'r Bwrdd Gweithredol yng Nghamau 1 a 2 gan ychwanegu Cyngor llawn yng Ngham 3 er mwyn penderfynu ynghylch y cynnig. Cynigiwyd dileu'r broses ymgynghori â'r Pwyllgor Craffu yng Nghamau 2 a 3. Y rheswm am hyn yw bod y Bwrdd Gweithredol yn gallu cymeradwyo Cam 2 a bod y Cyngor Sir yn gallu cymeradwyo Cam 3. Byddai'r broses yn cymryd 2 fis yn llai drwy wneud hyn. Felly, byddai'r ymgynghoriad yn mynd rhagddo fel a ganlyn:-

Cam 1 – Bwrdd Gweithredol a Phwyllgor Craffu: Addysg a Phlant
Cam 2 – Y Bwrdd Gweithredol
Cam 3 – Y Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor Sir

Roedd y cynnig yn dal i sicrhau bod y Pwyllgor Craffu yn gallu ystyried y cynnig yn ffurfiol cyn cytuno ar unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus ac roedd hefyd yn caniatáu i aelodau'r Pwyllgor Craffu benderfynu ynghylch canlyniad y cynnig fel aelodau o'r Cyngor llawn. Ymgynghorir â hwy hefyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol o 6 wythnos (os yw'r Bwrdd Gweithredol yn rhoi caniatâd ynghylch ymgynghori).

Gofynnwyd y cwestiwn canlynol mewn perthynas â'r adroddiad:-

- Pan ofynnwyd pam y teimlwyd mai'r cam cyntaf oedd y cam gorau i ymgynghori â'r Pwyllgor Craffu, eglurodd y Pennaeth Mynediad i Addysg mai ar ddechrau'r broses y gall y Pwyllgor ddylanwadu ar y broses ac na fyddai'n bosibl llunio'r cynnig ar ôl bod yn destun ymgynghoriad.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**6.1 Bod y cynnig i fyrhau'r broses fewnol o benderfynu ynghylch trefniadaeth ysgolion yn cael ei gymeradwyo;**
**6.2 Argymell bod y Bwrdd Gweithredol yn symud ymlaen â'r broses ddiwygiedig ar gyfer datblygu cynigion statudol ac ymgynghoriadau fel y nodir yn yr adroddiad, hynny yw dileu'r broses o ymgynghori â'r Pwyllgor Craffu Addysg a Phlant yng Nghamau 2 a 3.**

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG & PHLANT 2019/20

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2019/20 ynghylch ei waith yn ystod blwyddyn y cyngor 2019/20. Roedd yr adroddiad wedi'i baratoi'n unol ag Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i

Bwyllgorau Caffael baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol.

Roedd yr adroddiad yn bwrw golwg gyffredinol ar raglen waith y Pwyllgor a'r materion allweddol a ystyriwyd yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am sesiynau datblygu ac am ymweliadau safle a oedd wedi'u trefnu ar gyfer y Pwyllgor, yn ogystal â data am bresenoldeb.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Craffu Addysg a Phlant 2019/20.**

## 8. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG & PHLANT AR GYFER 2020/21

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ei Flaenraglen Waith ar gyfer gweddill blwyddyn y cyngor 2020/21, a baratowyd yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor sy'n ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgorau Craffu ddatblygu a chyhoeddi blaenraglen waith bob blwyddyn gan glustnodi materion ac adroddiadau sydd i'w hystyried mewn cyfarfodydd yn ystod blwyddyn y cyngor.

**PENDERFYNWYD cadarnhau Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg a Phlant ar gyfer 2017/18.**

## 9. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 11EG MAWRTH, 2020

Nodwyd y dylid diwygio enw Dr Caryl James, Ysgol Pen-boyr i Dr Carol James, Ysgol Pen-boyr a Hafodwenog yn y rhestr o'r rhai a oedd hefyd yn bresennol yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 11 Mawrth 2020 yn gywir, yn amodol ar gynnwys y newid uchod.**

## 10. GOHIRIO'R CYFARFOD

Dywedodd y Cadeirydd yn y rhan hon o'r cyfarfod y byddai'r cyfarfod yn cael ei ohirio tan 2.00 p.m.

## Y CYFARFOD A AILYMGYNULLWYD

Ailymgynullodd aelodau'r Panel am 2.00pm.

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D. Price [Cadeirydd]

**Y Cynghorwyr:**
L.R. Bowen, K.V. Broom, D.M. Cundy (yn lle B. Thomas), T.A.J. Davies, J.P. Jenkins, B.W. Jones, D. Jones, G.R. Jones, M.J.A. Lewis, E.M.J.G. Schiavone, E.G. Thomas a D.T. Williams

**Aelodau Cyfetholedig:**

| | | |
|---|---|---|
| A. Enoch | - | Rhiant-lywodraethwr |
| V. Kenny | - | Cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig |

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd G. Davies - Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant

**Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
G. Morgans - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
S. Davies - Pennaeth Mynediad i Addysg
A. Rees - Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant
S. Smith - Pennaeth Gwasanaethau Plant
A Thomas - Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiad
S. Griffiths - Rheolwr Rhaglen Moderneiddio Addysg
M. Evans Thomas - Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Bryer - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
R. Lloyd - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees – Cyfieithydd ar y Pryd
J. Corner – Swyddog Technegol

## 11. RMA - CYNNIG I AD-DREFNU YSGOL HEOL GOFFA I SAFLE NEWYDD A CYNYDDU CAPASITI O 75 I 120

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad yn amlinellu cynnig i symud Ysgol Heol Goffa i safle newydd a chynyddu nifer y lleoedd o 75 i 120.

Mae Ysgol Heol Goffa yn ysgol arbennig yn Llanelli ac mae'n cael ei chynnal gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer 75 o ddisgyblion rhwng 3-19 oed sydd ag anawsterau dysgu difrifol neu anawsterau dysgu dwys a lluosog. Mae gan bob disgybl Ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig neu Gynllun Datblygu Unigol. Ar hyn o bryd roedd mwy o blant yn Ysgol Heol Goffa na'r lleoedd oedd ar gael ac roedd y duedd hon yn debygol o barhau hyd y gellir rhagweld gan fod galw cynyddol am leoedd a oedd yn rhoi pwysau sylweddol ar yr Awdurdod Lleol i leoli disgyblion. Y nifer presennol o leoedd yn Ysgol Heol Goffa yw 75 gyda 101 o ddisgyblion ar y gofrestr ar ôl Ionawr 2020. O ganlyniad, roedd yr Awdurdod wrthi'n datblygu cynllun i gynyddu'r lleoedd yn Ysgol Heol Goffa i 120 o leoedd drwy ddarparu ysgol newydd â chyfleusterau sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif ar safle newydd. Roedd y safle newydd arfaethedig wedi'i leoli wrth ymyl Ysgol Pen Rhos a gwblhawyd yn ddiweddar.

Roedd ymgynghoriad ffurfiol wedi'i gynnal rhwng 21 Medi 2020 ac 1 Tachwedd 2020, ac roedd yr ymatebion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Mynegwyd pryder nad oedd y gwaith ehangu arfaethedig efallai yn ddigon mawr i ddiogelu'r ysgol at y dyfodol, o gofio'r angen amlwg am y ddarpariaeth yn yr ardal. Eglurodd y Pennaeth Mynediad i Addysg fod swyddogion yn ceisio cynllunio ymlaen o ran pob cynllun ar y Rhaglen Moderneiddio Addysg. Mae'r Awdurdod yn cael 75% o arian grant tuag at gost y cynllun, ond nid oedd yn bosibl defnyddio'r arian hwn i ddarparu lleoedd ychwanegol. Byddai'n anodd iawn cyfiawnhau cynnydd yn y ddarpariaeth i Lywodraeth Cymru. Mae swyddogion yn hyderus bod y ffigur o 120 wedi'i bennu'n iawn;
- Tynnwyd sylw at y ffaith bod y ffigur presenoldeb yn yr ysgol eisoes yn 101 a gofynnwyd i swyddogion a fyddai'n bosibl ymestyn yr ysgol yn y dyfodol

petai angen.  Eglurodd y Pennaeth Mynediad i Addysg fod y posibilrwydd o ehangu yn y dyfodol wedi'i gynnwys wrth adeiladu ysgolion newydd dros y blynyddoedd diwethaf;

- Cyfeiriwyd at y diffyg manylion yn yr Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd (QIA). Eglurodd y Pennaeth Mynediad i Addysg fod templed corfforaethol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd.  Byddai'n ystyried y sylwadau ac os oes angen cynnwys mwy o resymeg yn hytrach na gwneud "dim sylw" yna gwneir hynny;
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod y ddarpariaeth hon wedi'i lleoli mewn ysgolion uwchradd yn Rhydaman a Chaerfyrddin er mwyn hwyluso'r broses o integreiddio'n haws i addysg brif ffrwd, ond yn Llanelli y ddarpariaeth oedd ysgol ar wahân a phwysleisiwyd pa mor bwysig oedd hi fod plant yn gallu cymysgu â'u cyfoedion a'u bod yn cael pob cyfle i fynd i addysg prif ffrwd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**11.1 cymeradwyo'r adroddiad;**
**11.2 argymell i'r Bwrdd Gweithredol fod Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi**

**12. RMA - CYNNIG I ADOLYGU DARPARIAETH ADDYSG GYNRADD YN ARDALOEDD BLAENAU A LLANDYBIE**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar y cynnig i adolygu'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardaloedd Blaenau a Llandybïe.

Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar yr Awdurdod i adolygu nifer a math yr ysgolion sydd ganddo yn yr ardal ac a yw'n llwyddo ai peidio i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r cyfleusterau sydd ar gael i ddarparu'r cyfleoedd y mae plant yn eu haeddu.

Mae Ysgol Gynradd Blaenau yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg sydd wedi ei lleoli ym mhentref Blaenau ac mae lle i 99 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 mlwydd oed. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y disgyblion yn yr ysgol wedi gostwng. Ym mis Ionawr 2020 roedd 34 o ddisgyblion yn yr ysgol a oedd yn golygu bod 65 o leoedd gwag neu 66%. Mae Llywodraeth Cymru, drwy'r Côd Trefniadaeth Ysgolion, yn cynghori Awdurdodau Lleol i adolygu eu darpariaeth lle bo mwy na 10% o leoedd gwag mewn ardal.  Yn seiliedig ar amcanestyniadau cyfredol ynghylch nifer y disgyblion, amcangyfrifwyd y bydd nifer y disgyblion yn parhau i fod yn isel yn y dyfodol rhagweladwy.  Yn ogystal, roedd cyflwr adeilad yr ysgol yn wael ac mae'r ysgol wedi bod mewn diffyg ers 2011/12 ac yn parhau i fod â diffyg o £83,895 ar gyfer 2019/20.  Y dyraniad cyllid gwreiddiol ar gyfer 2020/21 oedd £149,000 a'u rhagolwg am y flwyddyn yw y bydd y diffyg yn cynyddu.

O safbwynt addysgol mae cael cyn lleied o ddisgyblion ond â dosbarthiadau oedran cymysg yn ei gwneud yn anodd iawn i'r ysgol ddarparu ehangder a dyfnder o ran profiadau cwricwlaidd a chymdeithasol y mae ar ddisgyblion yr oedran hwn eu hangen i ddatblygu'n llawn. Mae'r ffeithiau anochel hyn wedi arwain yn y pen draw at fodel ysgol nad yw'n fodel addysgol gadarn na sefydlog nac yn ddefnydd gorau o'r adnoddau. Gan na ddisgwylir gweld cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion hyd y gellir rhagweld yn y dyfodol, roedd angen ystyried cynaliadwyedd yr ysgol.

Mae Ysgol Gynradd Llandybïe yn ysgol gynradd drawsnewidiol (gweithio tuag at fod yn gyfrwng Cymraeg) i blant 3-11 oed. Lleolir yr ysgol ym mhentref gwledig Llandybïe. Mae'n ysgol lwyddiannus a oedd yn llawn erbyn mis Ionawr 2019 ac er bod gostyngiad bach yn nifer y disgyblion ym mis Ionawr 2020 roedd y duedd hon yn debygol o barhau hyd y gellir rhagweld yn seiliedig ar amcanestyniadau cyfredol o ran y disgyblion. O ganlyniad, mae'r Awdurdod Lleol yn datblygu cynllun i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Llandybïe i 315 a 45 o leoedd meithrin drwy ddarparu ysgol newydd ar safle newydd, gyda chyfleusterau sy'n addas ar gyfer y 21ain ganrif. Bydd y prosiect yn adleoli Ysgol Gynradd Llandybïe o'i safle presennol i safle newydd sydd o fewn dalgylch presennol Ysgol Gynradd Llandybïe. Bydd yr ysgol newydd yn darparu adeilad ysgol gynradd o safon Llywodraeth Cymru gyda'r gallu i ddarparu ar gyfer 315 o ddisgyblion a 45 o ddisgyblion meithrin rhwng 3 a 11 oed, a sicrheir bod yr ysgol yn gallu cyflwyno'r cwricwlwm llawn mewn amgylcheddau dysgu modern, diogel ac ysbrydoledig gydag ardaloedd allanol helaeth.

Bydd y buddsoddiad arfaethedig hwn yn mynd i'r afael â chyflwr gwael yr adeilad a'r diffyg lle a darpariaeth yn yr ysgol bresennol trwy ddarparu lleoedd digonol ar gyfer y galw presennol a'r galw arfaethedig mewn ysgol categori A. Yn ystod y 5 mlynedd diwethaf bu cynnydd parhaus yn nifer y disgyblion sy'n dewis mynychu'r ffrwd cyfrwng Cymraeg a gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n dewis mynychu'r ffrwd Saesneg.

Mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am roi'r addysg orau posibl i bob disgybl ac mae'n credu bod darparu cyfleoedd dwyieithog yn chwarae rhan yn hyn. Mae hyn yn cyd-fynd ag amcan Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin o ran sicrhau bod pob disgybl yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'r Gymraeg yn rhugl erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 yn unol â'u cyfnod datblygiad disgwyliedig. Y ffordd orau o greu unigolion hyderus a dwyieithog yw trwy drochi disgyblion yn yr iaith Gymraeg ac o ganlyniad mae'r Awdurdod Lleol yn ceisio newid natur y ddarpariaeth. O ganlyniad i'r heriau parhaus y mae'r ddwy ysgol yn eu hwynebu, nid oedd yn bosibl cynnal y trefniadau presennol ac roedd angen adolygu'r ddarpariaeth addysg o fewn ardaloedd Blaenau a Llandybïe.

Felly cynigiwyd y canlynol:

- Cau Ysgol Gynradd Blaenau ar 31 Awst 2021;
- O 1 Medi 2021 bydd pob disgybl wedi'i gofrestru yn Ysgol Llandybïe gan ddefnyddio'r ddau safle (Ysgol Gynradd Llandybïe a'r hen Ysgol Gynradd Blaenau) gan gynyddu nifer y lleoedd i 287 + 50 o leoedd meithrin;
- Ailddynodi dalgylch Ysgol Gynradd Llandybïe er mwyn cynnwys dalgylch hen Ysgol Gynradd Blaenau o 1 Medi 2021;
- Newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Llandybïe i gyfrwng Cymraeg o 1 Medi 2021;
- Adleoli Ysgol Gynradd Llandybïe i safle ysgol newydd a chynyddu nifer y lleoedd o 315 + 45 o leoedd meithrin ym mis Medi 2024, pan argymhellir agor yr ysgol newydd.

Mae nifer y lleoedd trawsnewidiol a nodir uchod (287 + 50 o leoedd meithrin) yn cyfuno nifer y lleoedd presennol yn y ddwy ysgol gan gynnwys y lleoedd meithrin. O ganlyniad, mae'r lleoedd meithrin yn nifer y lleoedd trawsnewidiol yn fwy na chapasiti'r ysgol yn derfynol. Mae ffigur terfynol nifer y lleoedd (315 + 45 o leoedd

meithrin) yn diwallu angen a galw'r ardal yn y tymor hir. Bwriad yr Awdurdod yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn yr ysgol ac yn parhau i gael eu haddysg drwy'r iaith bresennol. Mae'n bwysig nodi na fydd unrhyw newid yn achos y disgyblion presennol sy'n mynychu Ysgol Llandybïe.

**PENDERFYNWYD**

**12.1 cymeradwyo'r cynnig i adolygu'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardaloedd Blaenau a Llandybïe, fel y nodir yn yr adroddiad;**
**12.2 argymell i'r Bwrdd Gweithredol fod proses ymgynghori ffurfiol yn cael ei chynnal.**

## 13. RMA - AD-DREFNU AC AILFODELU GWASANAETHAU CYMORTH YMDDYGIAD YN YSGOL RHYDYGORS I WELLA'R DDARPARIAETH AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad yn manylu ar gynnig i ad-drefnu ac ailfodelu Gwasanaethau Cymorth Ymddygiad yn Ysgol Rhyd-y-gors er mwyn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc.

Yn dilyn adolygiad strategol o Wasanaethau Ymddygiad yr Awdurdod, cynigiwyd rhoi'r gorau i ganolbwyntio'n unig ar ymddygiad a defnyddio dull mwy cyffredinol o gynnwys llesiant disgyblion ac ennyn eu diddordeb. Er mwyn cyflawni hyn, mae model pedwar cam o wasanaethau ymddygiad wedi cael ei ddatblygu a oedd yn cynnwys darparu cymorth o ran ymddygiad ac ymgysylltu ar bedair lefel. Mae'r cymorth yn amrywio o ymyrraeth a chymorth mewn ysgolion prif ffrwd i leoliadau seibiant neu breswyl arbenigol.

Ar hyn o bryd, mae gan yr Awdurdod ystod o leoliadau lle caiff disgyblion eu cefnogi. Mae hyn yn cynnwys Ysgol Rhyd-y-gors, Canolfan Addysgu a Dysgu Uwchradd Sir Gaerfyrddin (Uned Cyfeirio Disgyblion ar gyfer disgyblion uwchradd), Canolfan Bro Tywi (Uned Cyfeirio Disgyblion ar gyfer disgyblion cynradd) a Chanolfan y Gors (Uned Cyfeirio Disgyblion ar gyfer disgyblion uwchradd sydd â phroblemau sylweddol o ran gorbryder a/neu lesiant emosiynol a phroblemau iechyd meddwl sydd angen cefnogaeth gan Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Mae gweledigaeth y model pedwar cam yn cynnwys annog pob un o'r lleoliadau hyn i gydweithio fel un Tîm y Gwasanaeth Cymorth ar gyfer Ymddygiad Arbenigol a Llesiant. Un o'r prif ffyrdd o gyflawni hyn yw creu cysondeb yn y math o ddarpariaeth a gynigir ym mhob un o'r lleoliadau a chreu system sy'n sicrhau bod cysylltiadau ag ysgolion prif ffrwd.

Ar hyn o bryd, unwaith y bydd plentyn yn cael ei roi yn Rhyd-y-gors, mae'r dystiolaeth hanesyddol yn awgrymu bod y person ifanc yn aros yno hyd nes ei fod yn 16 oed heb unrhyw brofiad pellach o fod mewn prif ffrwd. Mae'r Model Pedwar Cam newydd yn datblygu gwasanaethau cymorth ymddygiad i ganiatáu mynediad haws at ymyrraeth gynnar fel bod gan ysgolion fynediad uniongyrchol i aelod o dîm y Gwasanaeth Cynnal Ymddygiad a fydd yn cael ei hyfforddi mewn dulliau adferol, arferion sy'n ymwybodol o drawma ac sy'n datblygu'n broffesiynol yn barhaus i gefnogi anghenion eu clwstwr o ysgolion.

Mae yna ddysgwyr bob amser sydd ag anghenion cymhleth ac sydd angen pecynnau cymorth cadarn y tu allan i ddarpariaeth brif ffrwd ond mae ethos yr Awdurdod yn cefnogi cynwysoldeb ac yn datblygu cymorth a gwasanaethau sy'n

cael eu harwain gan anghenion. O fewn y model Pedwar Cam, pan argymhellir bod plentyn yn cael lle yng Nghamau 3 neu 4 dylai fod cyfle bob amser i ddychwelyd i'r brif ffrwd, neu hyd yn oed gael mynediad i'r brif ffrwd ar gyfer pynciau sydd yn ennyn eu diddordeb mewn modd cadarnhaol, ac nad yw hyn yn cael effaith negyddol ar ddysgu rhai eraill, pan all y person ifanc reoli emosiynau a chymryd rhan yn ei addysg mewn modd cadarnhaol a diogel. Gellir gwneud hyn drwy fonitro ac asesu parhaus a chyda pherthynas agos, dryloyw sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth â'n hysgolion prif ffrwd.

Er mwyn cysondeb, mynediad at gymorth arbenigol iawn, mynediad i gwricwlwm eang a chytbwys gydag ystod o opsiynau achredu a'r cynnig o gynlluniau addysg unigol a phwrpasol a gynigir yn yr Unedau Cyfeirio Disgyblion presennol drwy'r dull 3 Haen, roedd yn ofynnol cau Ysgol Rhyd-y-gors fel ysgol arbennig a'i sefydlu fel Uned Cyfeirio Disgyblion a bydd y cynnig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor heddiw yn cychwyn y newid hwn.

Er y cydnabuwyd bod Ysgol Rhyd-y-gors wedi bod yn darparu addysg i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ar ffurf ysgol arbennig ers nifer o flynyddoedd, cydnabuwyd y bydd gwella model yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn darparu'n fwy priodol ar gyfer diwallu anghenion cymdeithas a'i phobl ifanc, gan ddarparu cyfleoedd cyson ar draws y sir.

Felly cynigiwyd y canlynol:

- Cau Ysgol Arbennig Rhyd-y-gors ar 31 Awst 2021. Bydd holl gyn-ddisgyblion Ysgol Rhyd-y-gors yn parhau i gael eu haddysg ar safle hen Ysgol Rhyd-y-gors. Os caiff ei gymeradwyo, yn hytrach na chael darpariaeth mewn ysgol arbennig, bydd disgyblion yn cael eu haddysgu mewn Uned Cyfeirio Disgyblion. Er y dylid ystyried y cynnig yn ei gyfanrwydd, roedd y ddogfen ymgynghori yn ymwneud â phwynt 1 yn unig. Byddai pwyntiau 2 a 3 a nodir isod yn cael eu gweithredu drwy weithdrefnau ar wahân;
- Os caiff yr uchod (Pwynt 1) ei gymeradwyo, bydd yr Awdurdod Lleol yn sefydlu Uned Cyfeirio Disgyblion ar safle hen Ysgol Rhyd-y-gors ar 1 Medi 2021;
- Yn ogystal, os caiff Pwynt 1 ei gymeradwyo, bydd yr Awdurdod Lleol yn sefydlu Canolfan Gofal Seibiant/Cartref Plant ar safle hen Uned Breswyl/Ysgol Rhyd-y-gors ar 1 Medi 2021. Bydd pob un o gyn-ddisgyblion Ysgol Rhyd-y-gors sydd ag elfen o addysg breswyl yn rhan o'u Datganiad AAA yn parhau i dderbyn hyn ar safle hen Ysgol Rhyd-y-gors.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Gofynnwyd i swyddogion am y gost fesul disgybl mewn Uned Cyfeirio Disgyblion o gymharu ag ysgol gan fod cost yr uned yn Rhyd-y-gors yn ymddangos yn eithriadol o uchel. Esboniodd y Cyfarwyddwr fod y gost yn uwch oherwydd yr elfen breswyl a'r ddarpariaeth ddydd a ddarperir yn Rhyd-y-gors;
- Pan ofynnwyd am gadarnhad na fydd dysgwyr yn cael eu difreinio gan y newidiadau arfaethedig, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr y bydd popeth posibl yn cael ei wneud i sicrhau nad yw dysgwyr ar eu colled o ran eu darpariaeth. Roedd o'r farn y bydd dysgwyr yn cael gwell darpariaeth drwy

symud i'r dull newydd gan y bydd ganddynt fwy o fynediad at gymwysterau a fydd yn rhoi mwy o ddewisiadau iddynt pan fyddant yn gadael yr ysgol;

- Cyfeiriwyd at y ffaith bod disgyblion yn cael eu rhoi yn Rhyd-y-gors oherwydd bod ganddynt broblemau ymddygiadol a bod angen gofal a sylw arbenigol arnynt i fynd i'r afael â'u hanghenion. Mynegwyd pryder ynghylch integreiddio'n ôl i ysgolion prif ffrwd a sut y bydd y broses bontio honno'n digwydd. Eglurodd y Swyddog Arweiniol ar gyfer y Gwasanaethau Ymddygiad fod disgyblion yn cael eu hadolygu'n gyson o ran pontio a bod pob asesiad posibl yn cael ei gynnal. Ni fyddai disgybl ar unrhyw adeg yn cael mynd yn ôl i addysg brif ffrwd heb asesiad cadarn a chefnogaeth lawn. Nid oes byth bwriad i unrhyw ddisgybl fethu. Ychwanegodd y Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant fod y model a ddefnyddir yn seiliedig ar ddull sy'n gwbl gynhwysol;
- Gofynnwyd i swyddogion beth yw'r sefyllfa o ran faint o amser y gall disgybl ei dreulio yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion cyn symud ymlaen os oes ganddo anghenion arbennig iawn. Dywedodd y Cyfarwyddwr wrth y Pwyllgor fod rhaglen hyfforddi staff ynghylch addysg brif ffrwd ar gael ac na fydd disgyblion yn gadael nes eu bod yn barod i wneud hynny.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**13.1 gymeradwyo'r cynnig i ailfodelu gwasanaethau cymorth ymddygiad yn Ysgol Rhyd-y-gors, fel y nodir yn yr adroddiad;**
**13.2 argymell i'r Bwrdd Gweithredol fod proses ymgynghori ffurfiol yn cael ei chynnal**

## 14. RMA - CYNNIG I NEWID YSTOD OEDRAN YSGOL SWISS VALLEY O 4-11 I 3-11

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn manylu ar y cynnig i newid yr ystod oedran yn Ysgol Gynradd Dyffryn y Swistir o 4-11 i 3-11 oed.

Mae Ysgol Dyffryn y Swistir wedi bod yn cynnal cynllun peilot i fod yn ysgol 3-11 ers 2013 a gychwynnwyd yn rhan o gynllun gan Lywodraeth Cymru i roi hyblygrwydd a dewis i rieni o ran darpariaeth feithrin. Fodd bynnag, gan fod yr ysgol yn cael ei hysbysebu'n swyddogol ar hyn o bryd fel ysgol 4-11 oed, roedd rhieni'n gymysglyd ynghylch pa ddarpariaeth feithrin a gynigir gan yr ysgol neu nid oeddynt yn ymwybodol o'r ddarpariaeth.
Nod y cynnig oedd darparu darpariaeth gyfartal yn ardal Llanelli, gan alinio Ysgol Dyffryn y Swistir ag ysgolion cyfagos a oedd eisoes yn ysgolion 3-11 oed. Roedd y corff llywodraethu a'r pennaeth yn teimlo'n gadarnhaol yn dilyn canlyniad y cynllun peilot ac roeddent bellach am fwrw ymlaen â gwneud yr ysgol yn ysgol 3-11 oed yn swyddogol drwy broses statudol.

Felly cynigiwyd newid ystod oedran Ysgol Gynradd Dyffryn y Swistir o 4-11 i 3-11 o 1 Medi 2021.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**14.1 gymeradwyo'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Gynradd Dyffryn y Swistir o 4-11 i 3-11 o 1 Medi 2021, fel y nodir yn yr adroddiad;**

**14.2 argymell i'r Bwrdd Gweithredol fod proses ymgynghori ffurfiol yn cael ei chynnal.**

**15. RMA - CYNNIG I ADOLYGU DARPARIAETH ADDYSG GYNRADD YN ARDALOEDD MYNYDDYGARREG A GWENLLIAN**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad yn manylu ar gynnig i adolygu'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardaloedd Mynyddygarreg a Gwenllian.

Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar yr Awdurdod i adolygu nifer a math yr ysgolion sydd ganddo mewn ardal ac a yw'n llwyddo ai peidio i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r cyfleusterau sydd ar gael i ddarparu'r cyfleoedd y mae plant yn eu haeddu.

Mae Ysgol Gynradd Mynyddygarreg yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg sydd wedi ei lleoli ym mhentref Mynyddygarreg ac mae lle i 55 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y disgyblion wedi aros yn gyson ond maent yn dal i fod tipyn yn is na nifer y lleoedd. Dangosodd ffigurau Ionawr 2020 fod 36 o ddisgyblion yn yr ysgol a bod 19 o leoedd gwag, neu 35%. Mae Llywodraeth Cymru yn cynghori Awdurdodau Lleol i adolygu eu darpariaeth lle bo mwy na 10% o leoedd gwag mewn ardal. Yn seiliedig ar amcanestyniadau cyfredol, amcangyfrifwyd y bydd nifer y disgyblion yn parhau tipyn yn is na nifer y lleoedd yn y dyfodol rhagweladwy. Yn ogystal, roedd cyflwr adeilad yr ysgol yn wael ac roedd yr ysgol wedi bod mewn diffyg ers 2016/17 ac mae'n parhau i fod â diffyg o £48,265 wrth gamu i flwyddyn ariannol 2020/21. Eu dyraniad cyllid gwreiddiol ar gyfer 2020/21 oedd £172,000.

O safbwynt addysgol mae bod â chyn lleied o ddisgyblion a dosbarthiadau oedran cymysg yn ei gwneud yn eithriadol o anodd i'r ysgol ddarparu ehangder a dyfnder o ran y profiadau cwricwlaidd a chymdeithasol y mae ar ddisgyblion o’r oedran hwn eu hangen i ddatblygu'n llawn. Roedd y ffeithiau anochel hyn wedi arwain yn y pen draw at fodel ysgol nad yw'n fodel addysgol gadarn na sefydlog nac yn ddefnydd gorau o'r adnoddau. Gan na ddisgwylir gweld cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion hyd y gellir rhagweld yn y dyfodol, roedd angen ystyried cynaliadwyedd yr ysgol.

Ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg 3-11 oed yw Ysgol Gymraeg Gwenllian sydd wedi'i lleoli yng Nghydweli. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y disgyblion wedi aros yn gyson ac ychydig yn is na chapasiti'r ysgol o 140. Fodd bynnag, yn seiliedig ar amcanestyniadau cyfredol disgyblion, roedd disgwyl i nifer y disgyblion gynyddu ac roedd disgwyl i'r ysgol fod bron yn llawn erbyn 2025 ac roedd y duedd hon yn debygol o barhau hyd y gellir rhagweld. O ganlyniad, mae'r Awdurdod Lleol yn datblygu cynllun i ddarparu cyfleusterau i ysgol newydd sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif ar safle newydd.

Byddai'r prosiect yn adleoli Ysgol Gymraeg Gwenllian o'i safle presennol i safle newydd sydd o fewn dalgylch presennol Ysgol Gymraeg Gwenllian. Bydd yr ysgol newydd yn darparu adeilad ysgol gynradd o safon Llywodraeth Cymru gyda'r gallu i ddarparu ar gyfer 240 o ddisgyblion (210 + 30 o leoedd ar gyfer oedran meithrin) rhwng 3 ac 11 oed, a sicrheir bod yr ysgol yn gallu cyflwyno'r cwricwlwm llawn mewn amgylcheddau dysgu modern, diogel ac ysbrydoledig gydag ardaloedd allanol helaeth. Bydd y buddsoddiad arfaethedig hwn yn mynd i'r afael â chyflwr gwael yr adeilad a'r diffyg lle a darpariaeth yn yr ysgol bresennol trwy ddarparu

lleoedd digonol ar gyfer y galw presennol a'r galw arfaethedig mewn ysgol categori A. O ganlyniad i'r heriau parhaus y mae'r ddwy ysgol yn eu hwynebu, nid oedd yn bosibl cynnal y trefniadau presennol.

Felly cynigiwyd y canlynol:

- Cau Ysgol Gynradd Mynyddygarreg ar 31 Awst, 2021;
- O 1 Medi, 2021 bydd pob disgybl wedi'i gofrestru yn Ysgol Gymraeg Gwenllian, gan weithredu ar y ddau safle (Ysgol Gymraeg Gwenllian a hen Ysgol Gynradd Mynyddygarreg) gan gynyddu nifer y lleoedd i 178 + 17 o leoedd meithrin;
- Ailddynodi dalgylch Ysgol Gymraeg Gwenllian er mwyn cynnwys dalgylch hen Ysgol Gynradd Mynyddygarreg o 1 Medi 2021;
- Adleoli Ysgol Gymraeg Gwenllian i safle newydd a chynyddu nifer y lleoedd i 210 + 30 o leoedd meithrin o fis Medi 2023, sef y dyddiad Cyy cynigiwyd agor yr ysgol newydd.

Gofynnwyd y cwestiwn canlynol mewn perthynas â'r adroddiad:-

- Pan ofynnwyd a fydd unrhyw ddyled sy'n ddyledus gan ysgol yn cael ei dileu cyn gynted ag y bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu, eglurodd yr Aelod Gweithredol dros Addysg a Phlant y bydd unrhyw ddiffyg gan y naill ysgol neu'r llall yn trosglwyddo i'r Awdurdod ar 31 Awst 2021.

**PENDERFYNWYD**

**15.1 cymeradwyo'r cynnig i adolygu'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardaloedd Mynyddygarreg a Gwenllian, fel y nodir yn yr adroddiad;**
**15.2 argymell i'r Bwrdd Gweithredol fod proses ymgynghori ffurfiol yn cael ei chynnal.**

____________________________ _____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**